


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

9fed o Orffennaf 2019

Annwyl Riant/Gwarchodwr

Rydym yn agosáu at ddiwedd blwyddyn ysgol brysur iawn. Mae'r disgyblion wedi elwa unwaith eto o amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ac rydym yn falch iawn o gynnydd pob unigolyn.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r plant am eu gwaith caled, eu brwdfrydedd i ddysgu ac am eu gwerthfawrogiad o ethos Ysgol Gymraeg Cwmbrân.

Bydd 52 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn ein gadael eleni a dymunwn y gorau iddynt ar gyfer y dyfodol. Mae gennym 43 o blant yn ymuno â ni yn y Dosbarth Derbyn.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i'r staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus. Rwyf yn hynod ffodus i gael tîm mor ymroddedig.

Rydym, fodd bynnag, yn drist i ffarwelio ag aelod gwerthfawr o'n tîm. Mae Miss Elin Davies yn ein gadael ar ôl bron i bymtheg o flynyddoedd. Bydd Miss Ffion Mullane yn ymuno â ni ym mis Medi fel athrawes Blwyddyn 3 a chroesawn Miss Ellie-May fel cynorthwywyraig.

Diolch i chi y rhieni/gwarchodwyr am eich cefnogaeth parhaus.

Bydd tymor yr Hydref yn cychwyn ar y 4ydd o Fedi ac edrychwn ymlaen at groesawu chi yn ôl yr adeg hynny.

Cofion gorau

C Evans
Pennaeth

9th July 2019

Dear Parent/Guardian

We are nearing the end of another very busy school year. The pupils have yet again benefited from a wide range of learning experiences and we are extremely pleased with the progress of each individual.

I would like to take this opportunity to thank the children for their hard work, their enthusiasm to learn and their appreciation of the ethos of Ysgol Gymraeg Cwmbran.

52 Year 6 pupils will leave us this year and we wish them the very best for the future. 43 children will be joining us in Reception in September.

I would personally like to thank the staff for their hard work and dedication. I am extremely lucky to have such a committed team.

We are however sad to say goodbye to a valuable member of our team. Miss Elin Davies will be leaving us after almost fifteen years. Miss Ffion Mullane will be joining our team in September as a Year 3 teacher and we also welcome Miss Ellie-May Evans as a teaching assistant.

Thank you to you as parents/guardians for your continued support.

The Autumn term will begin on 4th September and we look forward to welcoming you back then.

Best wishes

C Evans
Headteacher

## CANLYNIADAU PROFION STATUDOL – BLYNYDDOEDD 2 i 6

Amgaeir canlyniadau Profion Darllen a Rhesymu Cenedlaethol eich plentyn ynghyd â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn falch iawn o gynnydd pob plentyn a defnyddir y canlyniadau yma fel un elfen yn unig o'r asesu parhaus sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn. Rydym hefyd yn ymfalchio yn yr ymdrech a'r ymroddiad dangosir gan bob plentyn wrth iddynt baratoi ar gyfer y profion. Da iawn chi!

SYLWER BOD Y DISGYBLION WEDI GWNEUD PRAWF RHIFEDD GWEITHDREFNOL AR LEIN AM Y TRO CYNTAF ELENI AC NID YW'R CANLYNIADAU HYN YN YMDDANGOS YN EICH PECYN.

## NATIONAL TEST RESULTS YEARS 2 TO 6

Please find enclosed your child's National Reading and Reasoning Test results along with the guidance notes issued by the Welsh Government.

We are very proud of each child's achievement and these tests are only one element of the continuous assessment undertaken throughout the year. We are also extremely proud of the efforts and dedication displayed by each pupil as they prepared for the tests. Well done you!

PLEASE NOTE THAT THE PUPILS UNDERTOOK AN ONLINE PROCEDURAL NUMERACY TEST FOR THE FIRST TIME THIS YEAR AND THESE RESULTS **DO NOT** APPEAR IN YOUR PACK.

## ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN

Amgaeir copi o adroddiad blynyddol eich plentyn. Os hoffech chi drafod yr adroddiad, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad.

Os yw eich plentyn ar hyn o bryd ym Mlwyddyn 2 neu 6 amgaeir canlyniadau diwedd Cyfnod Allweddol hefyd.

## END OF YEAR REPORT

Please find enclosed a copy of your child's annual report. If you would like to discuss the report, please contact the school to make an appointment.

Year 2 and 6 children have also received a copy of their end of Key Stage results.

## ADRODDIAD AROLWG ESTYN

Arolygwyd yr ysgol yn ddiweddar gan Estyn ac mae copi o'r adroddiad bellach ar gael ar wefan Estyn. Teipiwch Estyn Ysgol Gymraeg Cwmbran i mewn i'ch porwr a chliciwch ar yr Adroddiad Arolygu dyddiedig Mai 2019. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol os hoffech gael copi caled.

## ESTYN INSPECTION REPORT

The school was recently inspected by Estyn and a copy of the report is now available on the Estyn website. Simply type in Estyn Ysgol Gymraeg Cwmbran into your search engine and click on the Inspection Report dated May 2019. Alternatively, please contact the school office if you would like a hard copy.